COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME COMMISSIONER

TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD

Diben: Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLI100

Amseru: Arferol

Teitl: Digwyddiad Ymgysylltu Tregaron

Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: Ymgysylltu

Crynodeb Gweithredol:
Yn dilyn argymhellion yr HMIC yn 2017, cynigodd Carys Morgans, Pennaeth Staff y Comisiynydd, a'r Prif Gwnstabl Cynorthwyol Dros Dro Vicki Evans (Prif Arolygydd ar y pryd) ein bod yn datblygu prosiect ymgysylltu ar y cyd; er mwyn edrych yn benodol i weld a yw'r Timau Plismona yn y Gymdogaeth yn ymdrin â phethau sy'n bwysig i bobl yn eu hardaloedd. Cwestiwn cyffredinol y darn hwn o waith yw: "sut olwg sydd ar eich cymuned?" Y nod i gychwyn oedd y byddai'r prosiect ymgysylltu hwn yn ein galluogi i gynnal diwrnodau ymgysylltu cynhwysfawr i ymgynghori ag amrywiol gymunedau a grwpiau cymunedol, er mwyn nodi materion a phryderon plismona lleol penodol.

Y cynllun hirdymor yw cynnal prosiect treigl o ddiwrnodau ymgysylltu ledled ardal Dyfed-Powys. Y cynllun byrdymor yw trefalu'r dull hwn mewn un gymuned yn Nyfed-Powys. Mae Tregaron wedi cael ei henwebu fel cymuned i'w threfiau, ac mae hyn yn bennaf oherwydd gwybodaeth a ddarparwyd gan drigolion Tregaron drwy waith OpCynefin a wnaed gan dîm cyfathrebu corfforaethol Heddlu Dyfed-Powys, h.y. nad oedd preswylwyr Tregaron yn teimlo eu bod yn cael gwybod am faterion plismona lleol ac a oedd yr heddlu'n mynd i'r afael â nhw. Roedd y mwyafrif am gael gwybod mwy am blismona lleol.

Amlygwyd materion amrywiol drwy OpCynefin, ac nid oedd pob un yn gysylltiedig â gwasanaethau a ddarparwyd gan yr heddlu. Felly, y bwriad yw mabwysiadu dull ymgysylltu cydwelthredol, a gwahoddir amryw o bartneriaid i fod yn rhan o'r diwrnod ymgysylltu a grybwyllir uchod.

Argymhelliad:
Trefalu'r dull ymgysylltu cymunedol hwn yn Nhregaron, ac os yw'n llwyddiannus, ailgreu'r diwrnod mewn gwahanol gymunedau ledled Dyfed-Powys.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

Llofnod: Dafydd Llywelyn **Dyddiad:** 17/1/2019